# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 29/7/19

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Charles Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid - ar gyfer eitemau 5 - 7 ar y rhaglen) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Delyth Wyn Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys - ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau) ac Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte - ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans, R. Medwyn Hughes, Berwyn Parry Jones a Huw G. Wyn Jones.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019, fel rhai cywir.

## 4. DATGANIAD O GYFRIFON CYNGOR GWYNEDD 2018/19

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Tynnwyd sylw y cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 13 Mehefin, a oedd yn cyflwyno sefyllfa diwedd flwyddyn ar ffurf alldro syml oedd yn crynhoi'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2018/19, tra bod y Datganiad o'r Cyfrifon ar ffurf safonol ar gyfer pwrpas allanol a llywodraethu.

Nodwyd bod yr Adran Gyllid wedi cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2018/19, a'u rhyddhau i Deloitte, archwilwyr allanol y Cyngor a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, cyn 31 Mai. Eglurwyd bod bwriad yn y cyfarfod hwn i gyflwyno'r cyfrifon terfynol gerbron y Pwyllgor yn dilyn archwiliad. Nodwyd yn anffodus derbyniwyd cadarnhad yn ddiweddar gan Deloitte, nad oedd modd iddynt gwblhau'r archwiliad a pharatoi adroddiad yr Archwilwyr Allanol ISA260 ar gyfer eu cyflwyno i'r cyfarfod. Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 13 Medi er mwyn cyflwyno'r cyfrifon yn dilyn yr archwiliad er cymeradwyaeth y Pwyllgor.

Atgoffwyd yr aelodau, y cyflwynwyd cyfrifon terfynol yr Harbyrau gerbron y Pwyllgor ar 13 Mehefin. Nodwyd y derbyniwyd cadarnhad gan Deloitte nad oedd addasiadau yn dilyn archwiliad i gyfrifon yr Harbyrau, ac felly nid oedd gofyn i'w cyflwyno gerbron y Pwyllgor.

Manylodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys y Datganiad o Gyfrifon. Cyfeiriodd at 'Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar', gan nodi bod Deloitte, fel rhan o'r archwiliad, wedi codi mater yng nghyswllt gwerth meysydd parcio'r Cyngor a bod trafodaethau yn parhau rhwng y Gwasanaeth Eiddo a Deloitte o ran newid gwerth y meysydd parcio. Tynnodd sylw at yr argymhelliad i'r Pwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2018/19.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac ymgyfarwyddo eu hunain gyda chynnwys y cyfrifon terfynol cyn eu derbyn yn derfynol yn y cyfarfod arbennig. Cyfeiriodd at ddyfarniad cyfreithiol achos McCloud a oedd yn golygu y byddai mwy o warchodaeth drosiannol ar gyfer aelodau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Nododd bod y Goruchaf Lys wedi gwrthod cais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad. Eglurodd bod rhai cyflogwyr yn gorfod gosod swm atebolrwydd wrth gefn, ond oherwydd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi gosod rhagdybiaeth chwyddiant tâl actiwaraidd yn unol â'r achos, nid oedd rhaid i'r Cyngor addasu'r ffigyrau. Nododd y byddai geiriau ychwanegol o dan 'Nodyn 38 - Costau Pensiwn' i adlewyrchu hyn.

Nododd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte ei werthfawrogiad am gytuno i gynnal cyfarfod arbennig. Eglurodd bod yr archwiliad yn mynd yn ei flaen yn dda a bod ychydig o ddyddiau o waith eto i'w gwblhau. Ymddiheurodd nad oedd yr Adroddiad ISA260 yn barod i'w gyflwyno i'r cyfarfod hwn a byddai gwersi yn cael ei dysgu o ran cwblhau'r gwaith. Nododd eu bod yn hapus gyda safon y cyfrifon a bod y mater o ran gwerth meysydd parcio'r Cyngor yn fater o farn ac fe ddoir i ddealltwriaeth.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod y gwaith o ran y cyfrifon terfynol wedi ei gwblhau gan y Cyngor gan nodi siom nad oedd Deloitte wedi cwblhau'r gwaith yn unol â'r amserlen. Datganodd ei werthfawrogiad o waith y Tîm Cyfrifeg.

Ategodd aelod o'r Pwyllgor sylwadau'r Aelod Cabinet Cyllid gan nodi ei werthfawrogiad o waith y tîm.

Tynnodd aelod sylw at yr argymhelliad gan nodi y byddai'n annoeth pleidleisio o blaid yr argymhelliad fel yr oedd yn sefyll. Holodd am y sefyllfa o ran gor-ddyled banc y Cyngor. Cyfeiriodd at erthygl yn y wasg a oedd yn adrodd ar ymateb Cynghorau Gogledd Cymru i gais rhyddid gwybodaeth yng nghyswllt buddsoddiadau arian pensiwn. Ymhelaethodd bod yr erthygl yn amlygu bod arian Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau a oedd yn cynhyrchu arfau. Nododd ei bod yn fater moesol ac y byddai ef yn bersonol yn osgoi buddsoddiadau o'r fath. Ychwanegodd ei fod yn ymddangos nad oedd y Cyngor yn gwneud digon o ymholiadau o ran buddsoddiadau a bod angen gweithredu i sicrhau nid oedd arian y Gronfa Bensiwn yn cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau o'r fath.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Cyllid:

- O ran yr argymhelliad, efallai bod y geiriad yn anffodus ond yr hyn a argymhellwyd oedd derbyn a nodi'r Datganiad a oedd yn amodol ar archwiliad. Awgrymodd eiriad diwygiedig posib er ystyriaeth y Pwyllgor, sef "Derbyn y fersiwn cyn archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor am 2018/19 a nodi y byddai'r fersiwn terfynol gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig ar 13 Medi 2019."
- Mai mater llif arian a amlygir gan y gor-ddyled banc ar y 31ain o fis Mawrth, lle'r oedd y Cyngor am dderbyn grantiau i unioni'r sefyllfa'n fuan ym mis Ebrill. Pe byddai'r Cyngor wedi benthyg arian, yna byddai costau ynghlwm, felly dyma oedd y dull mwyaf cost effeithiol i ariannu costau penodol.
- Bod y Cyngor wedi ymateb i'r wasg ar y mater buddsoddiadau pensiwn. Eglurodd bod buddsoddiadau pŵl yn cynnwys nifer o gwmnïau gyda rhai cwmnïau megis

Airbus, Siemens a Volkswagen hefo cyfran fach o'u gwaith yn ymwneud â'r sector amddiffyn. Pwysleisiodd nad oedd y Cyngor yn targedu buddsoddiadau o'r fath, ond gyda rheolwyr asedau'r Gronfa Bensiwn yn buddsoddi ar draws y farchnad stoc roedd yn anochel bod rhai cwmnïau gydag elfennau o'u gwaith ynghlwm â'r sector amddiffyn. Nododd bod y sawl gyflwynodd gais Rhyddid Gwybodaeth wedi arwain y wasg i ganfyddiad camarweiniol.

Holodd yr aelod ymhellach a oedd y Cyngor yn cymryd bob cam i atal buddsoddiadau o'r fath. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Pwyllgor Pensiynau, yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2018, wedi cymeradwyo Datganiad Strategaeth Buddsoddi a oedd yn cynnwys egwyddorion buddsoddi diwygiedig. Nododd y byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod yn y prynhawn yn ystyried dyrannu 12% o'r Gronfa Bensiwn i gronfa ecwiti goddefol carbon isel. Pwysleisiodd nad oedd yn bosib rhagdybio penderfyniad y Pwyllgor Pensiynau, ond bod symudiad clir tuag at fuddsoddi mwy cyfrifol. Nododd yr aelod ei fod yn croesawu'r symudiad at fuddsoddi yn fwy moesegol.

Nododd aelod, yn dilyn dyfarniad achos cyfreithiol McCloud a gwrthodiad apêl y Llywodraeth, bod y Llywodraeth yn ail-edrych ar sefyllfa cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gyda chostau o oddeutu £4 biliwn ynghlwm a'i fod yn debygol y byddai goblygiadau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod adolygiad y Llywodraeth ar ddigwydd a bod holl gyflogwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ffodus nad oedd rhaid adnabod rhwymedigaeth wrth gefn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt taliadau i'r cyn Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, nododd y Pennaeth Cyllid bod pecyn diswyddo wedi ei gyflwyno i'r cyn Pennaeth fel rhan o adolygiad rheolaethol y Cyngor, roedd yn ei dro wedi cyflawni arbediad ariannol go sylweddol.

**PENDERFYNWYD derbyn y fersiwn cyn archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor am 2018/19 a nodi y byddai'r fersiwn terfynol gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig ar 13 Medi 2019.**

## 5. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid datganiadau ariannol statudol y Gronfa Bensiwn am gymeradwyaeth y pwyllgor. Manylodd ar gynnwys y Datganiad o Gyfrifon. Cyfeiriodd at ddau o strategaethau allweddol y Gronfa, y datganiad strategaeth cyllido a'r datganiad strategaeth buddsoddi. Tynnodd sylw bod cynnydd o £143 miliwn yn asedau net y Gronfa dros y flwyddyn 2018-19 a oedd yn dod a gwerth y Gronfa i dros £2 biliwn.

Nododd bod costau rheoli buddsoddiadau yn uwch ym mlwyddyn ariannol 2018-19 oherwydd ei fod yn gyfnod gyda llawer o drosiant mewn cwmnïau rheoli asedau ecwiti a buddsoddiadau cysylltiedig, gyda chostau ynghlwm. Ymhelaethodd bod hyn yn bennaf yn dilyn trosglwyddo rhan fwyaf o'r asedau o reolwyr penodol y Gronfa, sef Fidelity a Veritas, i Bartneriaeth Pensiynau Cymru i fuddsoddi ar y cyd. Nododd yn y pendraw y rhagwelwyd y byddai'r ffioedd yn lleihau a'r dychweliadau os nad yn well yn fwy gwydn, oherwydd bod y risg buddsoddi wedi ei ledaenu.

Cyflwynodd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte yr adroddiad archwiliad ISA 260. Nododd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- O ran Cydraddoli Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig (GMPs) ynghlwm ac achos McCloud, nid oedd yn swm materol wrth ystyried y Gronfa yn ei gyfanrwydd. Felly yn fodlon nid oedd angen diwygio unrhyw beth o ran y cyfrifon;

- Nid oedd unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yn y datganiadau ariannol;
- Derbyniwyd sicrwydd gan archwilwyr allanol Cyngor Sir Caerfyrddin, awdurdod lletya ar gyfer Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac nid oedd unrhyw fater yn codi;
- Bod rhan fwyaf o'r argymhellion a godwyd ym mlynyddoedd blaenorol wedi eu cyfarch;
- Bod y cyfrifon yn rhai o safon ardderchog.

Tynnodd aelod sylw bod y Cyngor fel cyflogwr yn cyfrannu £22.4 miliwn tuag at gost pensiynau. Nododd bod y Gronfa yn iach ac yn cael ei redeg yn llwyddiannus. Holodd a fyddai'r prisiad actiwaraidd teir-blynyddol yn lleihau cyfraniadau'r Cyngor fel cyflogwr, gan leihau'r baich ar drethdalwyr. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn hyderus bod gwelliannau o ran y buddsoddiadau gyda thair blynedd bositif heb gwymp yn y farchnad. Ymhelaethodd y byddai'r sefyllfa o ran y prisiad actiwaraidd teir-blynyddol yn cael ei gadarnhau ar ddiwrnod cyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn ar 24 Hydref 2019. Nododd ni ellid rhagweld darganfyddiad yr actwari, ond ei fod yn obeithiol y byddai'r prisiad yn golygu cyfraniadau cyfartal neu is i'r Cyngor fel cyflogwr.

Nododd aelod bod yr incwm o £14 miliwn ar fuddsoddiadau o Gronfa a oedd werth dros £2 biliwn, sef 0.7%, ar y wyneb yn edrych yn isel o ystyried lefel y difidend. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid bod rhaid ystyried cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau yn ogystal â'r incwm o ddifidend. Ymhelaethodd y gellid buddsoddi mewn cerbydau fyddai'n rhoi difidend uchel, ond efallai ni fyddai gwerth yr ased ar y farchnad stoc yn cynyddu. Nododd bod yr incwm ynghyd â chynnydd yng ngwerth y buddsoddiadau yn golygu cynnydd o £123 miliwn a oedd oddeutu 7% o werth y Gronfa, a oedd ddigon teg ar gyfer y flwyddyn.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach gan yr aelod, nododd y Pennaeth Cyllid ni roddir cyfarwyddiadau i'r rheolwyr asedau o ran yr union fuddsoddiadau ond fe edrychir i gynnal gwerth y Gronfa yn hytrach na derbyn incwm mewn difidend er mwyn ail-fuddsoddi. Eglurodd bod buddsoddi yn y modd yma yn cyd-fynd â'r cynllun busnes hirdymor gyda gwerth y buddsoddiadau yn cynyddu dros amser.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2018/19 (ôl-archwiliad) Cronfa Bensiwn Gwynedd;**

**(ii) derbyn adroddiad archwiliad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru;**

**(iii) awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ynghylch cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi yr adroddiad ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2018/19, yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno. Nodwyd bod gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, a derbyniwyd £330,614 o log ar fuddsoddiadau a oedd yn uwch na'r £130,000 yn y gyllideb. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fanc roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw wedi methu â thalu.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor wedi manteisio ar ryddid newydd yn 2018/19 i fuddsoddi mewn pethau amgen megis cronfeydd ecwiti ac eiddo, roedd wedi gwella lefel dychweliadau.

Nodwyd bod y Rheolwr Buddsoddi yn cychwyn cyfnod ymddeoliad hyblyg ac fe fyddai'n ymddeol o wasanaeth y Cyngor erbyn Ionawr 2020. Dymunwyd yn dda iddi ar ei

hymddeoliad a nodwyd gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth i'r Cyngor a'r cyn Gyngor Dosbarth Meirionnydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019, ystyriwyd methiant i adrodd ar weithrediadau cytunedig ar adeg archwiliadau dilyniant, ar gyfer yr archwiliadau canlynol:

a) Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal
b) Manddaliadau
c) Targedau Ailgylchu

Rhoddwyd ystyriaeth yn ogystal yng nghyfarfod y Gweithgor i archwiliadau a dderbyniodd lefel sicrwydd cyfyngedig, sef –

a) Tanciau Disel a Rheoli Disel
b) Trefniadau Diogelu - Sefydliadau
c) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet perthnasol a swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion oedd yn codi.

Nododd aelod yng nghyswllt archwiliad Manddaliadau o ran methiant i anfonebu tenantiaid yn y gorffennol a'r gwendidau a amlygwyd, ei fod yn gobeithio y byddai gwell trefn. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod Manddaliadau wedi cael cryn sylw yn ddiweddar ac wedi ei gynnwys eto yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2019-20.

Cafwyd trafodaeth yng nghyswllt yr archwiliad Targedau Ailgylchu. Nodwyd bod newidiadau i drefniadau casglu wedi dod i rym yn Ardal Dwyfor ar y 1af o Orffennaf a bod gwelliant o ran safon y gwaith casglu. Tynnwyd sylw bod newidiadau i'r dyddiau casglu wedi creu dryswch, yn enwedig i oedolion hŷn, a dylid cadw llygad ar y sefyllfa gan dderbyn diweddariad ar weithrediad.

Nododd aelod o ran yr archwiliad Tanciau Disel a Rheoli Disel, y daeth i'r amlwg nad oedd rheolwyr safle yn gyfrifol o ran cyflwr y tanciau yn y gorffennol, a'i fod yn gobeithio y byddai'r sefyllfa'n gwella gan y byddai gofyn ar reolwyr safle i archwilio'r tanciau yn fisol. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad dilyniant.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.25am

__________________________

**CADEIRYDD**